**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**MEMORANDWM CYWIRIADAU YN UNOL Â**
**RHEOL SEFYDLOG 22.13**
**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2004**

**<u>Y Cefndir</u>**

Cafodd y Rheoliadau Drafft hyn eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Mehefin 2004, eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 8 Mehefin 2004 a chan y Pwyllgor Deddfau ar 22 Mehefin 2004.

Nododd Cynghorwr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau cyn i'r Pwyllgor gyfarfod fod angen gwneud newidiadau drafftio penodol ac awgrymwyd diwygiadau yn sgil hynny.

Cyflwynwyd adroddiad ar y diwygiadau a chytunodd y Pwyllgor Deddfau arnynt yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2004, ac maent i'w hystyried gan y Cynulliad fel a ganlyn:-

**<u>Y diwygiadau</u>**

***Mân wallau drafftio wrth ddiffinio "TAG Safon Uwch" ac "arholiadau TAG Uwch Gyfrannol" yn rheoliad 2(2) o destun Cymraeg y Rheoliadau, ac wrth ddiffinio'r geiriau cyfatebol yn nhestun Saesneg y Rheoliadau. Dylid rhoi'r diffiniad canlynol yn lle'r testun Cymraeg a rhoi diffiniad cyfatebol yn lle'r testun Saesneg:***
***"ystyr "TAG Safon Uwch" ("GCE 'A' level") a "TAG Uwch Gyfrannol" ("GCE 'AS' ") yw Tystysgrif Addysg Gyffredinol safon uwch ac uwch gyfrannol yn y drefn honno.".***

***I wella'r drafftio, mewnosoder y geiriau "yn nhrefn briodol yr wyddor" ar ôl y gair "ganlyn" ym mrawddeg gyntaf rheoliad 2(2) o destun Cymraeg y Rheoliadau a'r geiriau Saesneg cyfatebol ar ôl y gair "definitions" yn nhestun Saesneg y Rheoliadau.***

**22 Mehefin 2004**

**JANE DAVIDSON**

**GWEINIDOG CYNULLIAD**